OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 993

## Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2003

## RHAN I

CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 3 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "adolygiad cyffredinol" ("*general review*") yw adolygiad a gynhelir gan y Comisiwn o dan adran 20(1)(d) o'r Ddeddf(**1**);

ystyr "adolygiad dilysu" ("*validation review*") yw adolygiad o dan adran 20(1)(da)(**2**) o'r Ddeddf;

ystyr "adolygiad gwasanaeth gwladol" ("*national service review*") yw adolygiad cyffredinol sy'n ymwneud â mathau penodol o ofal iechyd y mae cyrff GIG neu ddarparwyr gwasanaethau yn gyfrifol amdano;

ystyr "adolygiad llywodraethu clinigol" ("*clinical governance review*") yw adolygiad a gynhelir gan y Comisiwn o dan adran 20(1)(b) o'r Ddeddf neu reoliad 2(c) neu (d) o'r Rheoliadau Swyddogaethau;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol" ("*relevant Local Health Board*") mewn perthynas â darparydd gwasanaeth yw —

(a) os yn ardal un Bwrdd Iechyd Lleol yn unig y mae'r darparydd gwasanaeth yn darparu gwasanaethau, y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw, neu

(b) os yw'r darparydd gwasanaeth yn darparu gwasanaethau yn ardaloedd dau neu ragor o Fyrddau Iechyd Lleol, pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol hynny;

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw'r Comisiwn Gwella Iechyd a sefydlwyd gan adran 19 o'r Ddeddf;

ystyr "y Comisiwn Archwilio" ("*the Audit Commission*") yw'r Comisiwn Archwilio dros Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr(**3**);

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(**1**) Diwygiwyd adran 20(1)(d) gan adran 20(1) a (2) o Ddeddf 2002.
(**2**) Mewnosodwyd adran 20(1)(da) gan adran 12(2)(c) o Ddeddf 2002.
(**3**) Cafodd bodolaeth y Comisiwn Archwilio ei pharhau gan adran 1 o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998 (p. 18).

ystyr "darparydd gwasanaeth" ("*service provider*") yw person, heblaw corff GIG(**4**)), sydd —

(a) yn darparu gwasanaethau Rhan II;

(b) yn darparu gwasanaethau yn unol â chynllun peilot o dan Ddeddf 1997; neu

(c) yn darparu gwasanaethau yn unol â threfniadau o dan adran 28 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(**5**);

ystyr "Deddf 1977" ("*the 1977 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

ystyr "Deddf 1997" ("*the 1997 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997(**6**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd 1999;

ystyr "gwasanaethau Rhan II" ("*Part II services*") yw gwasanaethau meddygol cyffredinol, gwasanaethau deintyddol cyffredinol, gwasanaethau offthalmig cyffredinol neu wasanaethau fferyllol o dan Ran II o Ddeddf 1977;

ystyr "gweithiwr proffesiynol gofal iechyd" ("*health care professional*") yw person sydd wedi ei gofrestru fel aelod o broffesiwn gofal iechyd;

ystyr "proffesiwn gofal iechyd" ("*health care profession*") yw proffesiwn y mae adran 60(2) o'r Ddeddf yn gymwys iddo;

ystyr "y Rheoliadau Swyddogaethau" ("*Functions Regulations*") yw Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) 2000(**7**);

ystyr "safle perthnasol" ("*relevant premises*") yw safle perthnasol fel y'i diffinnir gan adran 23(6) o'r Ddeddf;

ystyr "trefniadau llywodraethu clinigol" ("*clinical governance arrangements*") yw —

(a) yn achos ymddiriedolaethau'r GIG, neu ddarparydd gwasanaeth, trefniadau monitro a gwella ansawdd y gofal iechyd(**8**) y maent yn gyfrifol amdano;

(b) yn achos Bwrdd Iechyd Lleol, trefniadau at ddibenion monitro a gwella ansawdd y gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu i'r unigolion yn eu hardal;

ystyr "ymchwiliad" ("*investigation*") yw ymchwiliad gan y Comisiwn yn unol ag adran 20(1)(c) o'r Ddeddf(**9**)) neu reoliad 2(e) o'r Rheoliadau Swyddogaethau;

ystyr "ymchwiliad gwasanaeth iechyd" ("*health service inquiry*") yw ymchwiliad, a gynhelir neu a sefydlir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu gorff GIG, i unrhyw fater sy'n ymwneud â rheolaeth, darpariaeth ac ansawdd y gofal iechyd y mae cyrff GIG neu ddarparwyr gwasanaeth yn gyfrifol amdano.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at ofal iechyd y mae person yn gyfrifol amdano i'w dehongli yn unol ag adran 20(5) o'r Ddeddf.

(**4**) *Gweler* adran 20(7) o'r Ddeddf i gael diffiniad o "NHS body"; diwygiwyd y diffiniad gan Atodlen 1, paragraff 49, i Ddeddf 2002.
(**5**) p. 15.
(**6**) 1997 p. 46.
(**7**) O.S. 2000/662 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2000/797 ac O.S. 2002/2469.
(**8**) *Gweler* adrannau 18(4) a 20(7) o Ddeddf 1999 i gael diffiniad o "health care".
(**9**) Diwygiwyd adran 20(1)(c) gan Atodlen 1, paragraff 49, o Ddeddf 2002.